Polisi Twitter - @FundrRegulator

Mae'r cyfrif @FundrRegulator yn cael ei reoli gan Swyddfa'r Wasg yn y Rheoleiddiwr Codi Arian.

Os dilynwch y cyfrif hwn, gallwch ddisgwyl cael trydariadau ar rai neu bob un o'r canlynol:

- negeseuon rheoleiddiol, gan gynnwys datblygiadau'r Cod Ymarfer Codi Arian a deddfwriaeth sy'n berthnasol i godi arian
- newyddion am ymgynghoriadau, cyfarwyddyd, gweithdai a chyhoeddiadau'r
- cyfleoedd i fod yn astudiaethau achos y Rheoleiddiwr Codi Arian neu gymryd rhan mewn gwaith ymchwil
- swyddi gwag cyfredol
- ffeithiau a ffigurau defnyddiol

Dilyn

Os ydych yn dilyn ni fyddwn yn eich dilyn chi yn ôl yn awtomatig. Rydym yn dilyn sefydliadau sy'n berthnasol i'r Rheoleiddiwr Codi Arian, ac rydym yn dilyn unigolion lle y bo'n briodol. Nid yw dilyn cyfrif Twitter yn golygu bod y Rheoleiddiwr Codi Arian yn rhoi unrhyw fath o sêl bendith.

Hashnodau

Gallwn gyfeirio at hashnodau sy'n bod a ddefnyddir yn gyffredin. Gwneir hyn er mwyn categoreiddio negeseuon er hwylustod. Nid yw'n golygu ein bod yn rhoi unrhyw fath o sêl bendith.

@messages a negeseuon uniongyrchol

Byddwn yn adolygu @messages yn ystod oriau swyddfa, Llun - Gwener (heb gynnwys gwyliau cyhoeddus). Ni fyddwn yn ymateb i bob un ohonynt yn uniongyrchol ond byddwn yn ymateb pan deimlwn y gallwn fod yn ddefnyddiol.

Ni fydd anfon negeseuon i'n ffrwd Twitter yn cael ei ystyried yn ymgais i gysylltu â'r Rheoleiddiwr Codi Arian ar gyfer unrhyw ddiben swyddogol, nac fel modd o ymchwilio, trafod neu gynnig sylwadau ar ymholiadau gan elusennau unigol.

Os ydych am gysylltu â'r Rheoleiddiwr Codi Arian, cewch fanylion ar ein gwefan.

Ni fwriedir i'n ffrwd Twitter gael ei defnyddio gan y cyfryngau i gysylltu â ni. Os ydych yn aelod o'r cyfryngau ac mae ymholiad gennych, dylech gysylltu â Swyddfa'r Wasg y Rheoleiddiwr Codi Arian yn uniongyrchol ar 0300 999 3407.

Nid yw'r Rheoleiddiwr Codi Arian yn gweithredu ar faterion yn ymwneud â gwleidyddiaeth plaid.

Cwynion

Ni fwriedir i ffrwd Twitter y Rheoleiddiwr Codi Arian fod yn ddull o ymchwilio, trafod neu gynnig sylwadau ar gwynion unigol. Caiff unrhyw negeseuon o'r fath eu cyfeirio at adran gwynion ein gwefan.

Argaeledd

Byddwn yn diweddaru ac yn monitro @FundrRegulator yn ystod oriau swyddfa, Llun - Gwener (heb gynnwys gwyliau cyhoeddus). Gallwn drydar y tu allan i oriau swyddfa ar brydiau. Ni fydd Twitter ar gael weithiau ac ni dderbyniwn unrhyw gyfrifoldeb am ddiffyg gwasanaeth pan na fydd Twitter ar gael.